

Adroddiad Ymgynghori

Ysgol Pencae (Highfields) - Parth Diogelwch Ysgol

Rhif Project: CO16112

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig uchod rhwng 14 Gorffennaf 2017 – 28 Gorffennaf 2017. Er bod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal dros wyliau'r haf, ystyriwyd gohebiaeth a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau yn rhan o'r adroddiad hwn.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidiau lleol pan yn bosibl.

Ymgynghorwyd â 180 eiddo (tua) ac arddangoswyd hysbysiadau safle, a chafwyd 14 ymateb unigol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- 3 Cefnogi'r cynnig
- 5 Yn erbyn y cynnig
- 4 Wedi cyflwyno sylwadau ar y cynnig ond heb ddweud os ydynt o blaid neu'n erbyn y cynnig arfaethedig.
- 2 Cefnogi rhai elfennau ar y cynnig yn unig.

Argymhelliad

O ran y wybodaeth isod, cynigir **parhau** â'r cynnig gydag addasiad bach i'r cyfyngiad cyflymder 20 mya a gynigiwyd yn wreiddiol. Ni fydd y cyfyngiad cyflymder 20 mya a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer Llantrisant Rise a Baynton Close yn cael ei roi ar waith.

Cafodd cynllun Projectau Trafnidiaeth ei gynnis ar gyfer yr ardal hon nifer o flynyddoedd yn ôl (*gweler Atodiad A*). Roedd y cynllun hwn yn cynnwys "Dim Aros O Gwbl" o amgylch y cyffyrdd sy'n rhan o'r cynnig presennol. Hefyd, yn rhan o'r cynnig hwn cynigwyd y dylid cyflwyno cyfyngiad "Dim Aros Dydd Llun – Dydd Gwener 8am – 4:30pm" drwy nifer o'r ffyrdd hyn a fyddai wedi cyfyngu ar gyfleusterau parcio yn yr ardal. Oherwydd y nifer uchel o wrthwynebiadau a dderbyniwyd gan breswylwyr lleol, cafodd y cynllun ei ohirio gyda'r nod o gynnal mwy o waith archwilio ac er mwyn ystyried opsiynau eraill.

Mae'r cynnig presennol hwn sydd ar waith ar hyn o bryd yn fersiwn lai o'r cynnig a gyflwynwyd eisoes. Byddai'r cyfyngiadau arfaethedig yn gwaredu ychydig bach o gerbydau sydd wedi'u hadnabod yn rhai fyddai'n achosi rhwystr. Mae gan fwyafrif yr eiddo yn yr ardal gyfleusterau parcio oddi ar y stryd ar ffurf rhodfeydd, ac oherwydd hyn nid oes llawer o alw am barcio ar y ffordd yn yr ardal. Felly, mae unrhyw gyfyngiadau fydd yn cael eu rhoi ar waith o amgylch cyffyrdd yn rhwystro cerbydau rhag parcio'n unol â Rheolau'r Ffordd Fawr, ond mae dal cyfleusterau parcio ar gael yn agos at y cyfyngiadau arfaethedig.

Mae'r pryderon a'r sylwadau wedi eu crynhoi isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Dangosir sampl o'r sylwadau isod o dan bob is-bennawd mewn llythrennau italig.

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

Trafodwyd llawer o faterion ynghylch y Broses Ymgynghori ar Broiectau Trafnidiaeth ar gyfer y cynllun hwn.

"Mae'n anffodus bod CDC wedi anfon y wybodaeth ymgynghori ar y mater pwysig hwn yng nghanol y gwyliau pan fo llawer o bobl i ffwrdd, ac felly efallai na fyddent wedi cael cyfle i ymateb iddi. O ganlyniad i hyn, efallai na fydd llawer o breswylwyr lleol a fydd yn gweld effaith y cynigion hyn yn ymwybodol o'r ymgynghoriad hwn, ac ni fydd eu barn wedi'u hadlewyrchu."

"A fyddech cystal ag anfon llythyr at bob preswilydd yn rhoi gwybod am unrhyw drafodaeth a'r amserlen ar gyfer y broses sydd o'n blaenau ni, allwch chi hefyd roi rhybudd o leiaf chwe wythnos am unrhyw gyfarfod i drafod hyn."

Mae cyfnod ymgynghori am bythefnos yn arferol yn ein proses ymgynghori cyhoeddus ar Broiectau Trafnidiaeth. Fodd bynnag, er bod y ddogfen ymgynghori wedi nodi dyddiad cau o 28 Gorffennaf 2017, rydym wedi derbyn adborth ar yr ymgynghoriad tan ddydd Gwener 11 Awst 2017, gan ein bod yn cydnabod bod yr ymgynghoriad hwn wedi digwydd dros Wyliau'r Haf. Gan fod ein cynlluniau'n dilyn proses helaeth sydd â nifer o gamau, nid yw'n bosib oedi ymgynghori ar ein Cynlluniau Traffig arfaethedig bob tro. Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i osgoi ymgynghori dros gyfnodau gwyliau, os yw'r cyfnod ymgynghori ar yr un pryd â chyfnodau gwyliau'r ysgol, byddai oedi'n effeithio ar ein cynlluniau arfaethedig, all effeithio ar gyllid fyddai'n golygu na fyddai'r cynllun yn cael ei gyflawni o bosibl.

Caiff pob sylw a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn ei ystyried yn ofalus ochr yn ochr â phob ymateb arall er mwyn ein galluogi ni i wneud penderfyniad ar y camau y dylid eu cymryd i fynd ar ôl y materion a godwyd.

Ar ôl gorffen a pharatoi'r Adroddiad Ymgynghoriad i'r Aelodau Ward Lleol, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad yn nodi'r materion ac yn rhoi ymateb y dyluniwr iddynt, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ystyrir yn briodol. Yna, bydd hyn yn nodi cynnydd bwriedig y cynllun, gan gynnwys unrhyw newidiadau, adolygu neu ganslo'r cynnig presennol.

Pan fydd yr adroddiad wedi'i orffen, bydd copi ohono ar gael ar y ddolen ganlynol, www.caerdydd.gov.uk/ProjectauTrafnidiaeth gan ddewis y ddolen adroddiad ymgynghoriad dan y teitl cynllun perthnasol. Fel arall, mae copi papur ar gael drwy e-bostio ProjectauTrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk Caiff hysbysiadau safle eu harddangos ar y stryd o fewn yr ardal Cynllun Traffig arfaethedig a fydd yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am ganlyniad y broses ymgynghori (gan eu cyfeirio at wefan y Cyngor i gael rhagor o wybodaeth), gan na fydd unrhyw lythyru ychwanegol yn digwydd.

Cafodd cynnig Projectau Trafnidiaeth blaenorol ar gyfer yr ardal hon ei ohirio yn sgil gwrthwynebiadau gan Breswylwyr Lleol.

“Ni allaf ddeall pam bod y cyngor yn cynnig mesurau yma eto. Nid oes unrhyw un wedi gofyn am y cynllun nac yn dymuno ei gael, a bydd yn gwaethygu problemau preswylwyr. Rydym eisoes wedi gwrthwynebu a chafodd ei dderbyn y byddai cyfyngiadau parcio yn cael effaith andwyol ar yr ardal ac ar ddiogelwch ein plant.”

Roedd cynnig Projectau Trafnidiaeth blaenorol oedd yn cynnwys cyflwyno Gorchymyn Rheoli Traffig yn yr ardal (*gweler Atodiad A*). Roedd y cynllun hwn yn cynnwys “Dim Aros O Gwbl” o amgylch y cyffyrdd sy'n rhan o'r cynnig presennol. Yn rhan o'r cynnig hwn cynigwyd y dylid cyflwyno cyfyngiad “Dim Aros Dydd Llun – Dydd Gwener 8am – 4:30pm” drwy nifer o'r ffyrdd hyn a fyddai wedi cyfyngu ar gyfleusterau parcio yn yr ardal. Oherwydd y nifer uchel o wrthwynebiadau a dderbyniwyd gan breswylwyr lleol, cafodd y cynllun ei ohirio gyda'r nod o gynnal mwy o waith archwilio ac er mwyn ystyried opsiynau eraill.

Yn sgil pryderon y preswylwyr, mae'r cynnig presennol hwn sydd ar waith ar hyn o bryd yn fersiwn lai o'r cynnig a gyflwynwyd eisoes. Byddai'r cyfyngiadau arfaethedig yn gwaredu ychydig bach o gerbydau sydd wedi'u hadnabod yn rhai fyddai'n achosi rhwystr, ac sydd wedi parcio yn groes i ganllawiau Rheolau'r Ffordd Fawr.

Dylid gwario'r arian ar groesfan ar gyffordd cylchfan Ffordd Caerdydd, Llantrisant Road a Bridge Road.

“Hoffwn ofyn pam bod y cyngor tlawd hwn yn dal i geisio cyflwyno mesurau sy'n wastraff arian, yn lle gwario'r arian hwnnw mewn lleoedd gwell megis darparu croesfan i blant ar y gylchfan rhwng y BBC a'r hen orsaf heddlu. Mae croesi yno'n beryglus iawn ac mae'n amhosibl bron i blant ar feiciau neu mewn coetsys. Mae pobl wedi bod yn galw am rywbeth yno ers blynyddoedd ac wedi derbyn yr ymateb mai'r gost yw'r broblem.”

Mae pryderon eisoes wedi'u codi ynghylch y lleoliad hwn ac mae cynllun ar y gweill ar gyfer gwella'r cyfleusterau i gerddwyr yng nghyffordd cylchfan Ffordd Caerdydd, Llantrisant Road a Bridge Road. Fodd bynnag, gan fod hyn yn ddibynnol ar gyllid yn dod ar gael, nid ydym yn gallu rhoi amserlen mewn perthynas â bwrw ymlaen â'r cynllun. Dylid nodi hefyd bod y Cynllun Diogelwch Ysgol arfaethedig hwn ar gyfer Ysgol Pencae yn gynllun leinio ac arwyddo Gorchymyn Rheoli Traffig cost isel, tra bo cyflwyno croesfan i gerddwyr yn golygu costau adeiladu sylweddol iawn.

Bydd ganddo effaith andwyol ar brisiau tai.

“Byddai'r mesurau arfaethedig yn dirywio dymunoldeb tai yma'n ofnadwy, ynghyd ag effeithio'n andwyol ar werthoedd eiddo.”

Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith negatif neu bositif ar brisiau tai, fodd bynnag, mae croeso i breswylwyr geisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar y mater hwn.

Efallai y bydd yr ardal hon o Landaf yn cael ei hystyried yn "Ardal Gadwraeth" yn y dyfodol.

"Deallwn ei bod hi'n debygol y bydd yr ardal yn cael ei dynodi'n ardal gadwraeth cyn bo hir. Ni fydd llinellau melyn dwbl yn gweddu â'r syniad."

Ar hyn o bryd, nid yw'r ardal yn ardal gadwraeth, ac os bydd yr ardal hon yn newid i fod yn ardal gadwraeth yn y dyfodol, dylid nodi bod llinellau melyn dwbl yn dderbyniol mewn ardaloedd cadwraeth.

Sylwadau'n erbyn y cyfyngiad cyflymder 20mya arfaethedig a sylwadau ynghylch cyflwyno mesurau Arafu Traffig yn rhan o'r cynnig hwn.

"Nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi y bydd hyn yn gwella diogelwch. Dylech wario'r arian prin sydd gennych yn yr hinsawdd llymder ar bethau gwell."

"Nid wyf yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cyfyngiad cyflymder 20mya yn Llantrisant Rise a Baynton Close. Mae'n hollol ddiangen. Cul-de-sac byr yw Llantrisant Rise a Baynton Close. Nid ydym yn cael unrhyw draffig trwodd o gwbl, ac yn sicr dim traffig ysgol. Ymhellach i hynny, rwyf wedi byw yma ers deng mlynedd ac nid wyf erioed wedi gweld car yn gyrru dros 20mya yn unrhyw le ar Lantrisant Rise na Baynton Close"

"Mewn perthynas â'r cynnig 20MYA, does dim pwynt gosod cyfyngiad cyflymder os na fydd yn cael ei orfodi."

"Os mai dim ond cyflwyno cyfyngiad cyflymder yw'r bwriad (fel y nodwyd yn yr hysbysiad) byddwn yn gefnogol iawn - er bod y ffyrdd wedi'u gosod mewn ffordd sy'n osgoi ceir rhag gyrru'n gyflymach na 20 mya, felly mae'r cyfyngiad yn ymddangos ychydig yn ormodol."

"Nid ydym yn cytuno gyda'r cynigion i osod cyfyngiad cyflymder 20mya yn yr ardal, oherwydd rydym yn credu bod hyn yn ddiangen o ystyried lled cul y ffyrdd a gosodiad y stryd yma, sy'n atal gyrwyr rhag gyrru'n gyflymach na 20mya."

"Mae gan Lantrisant Rise, fel mae'r enw'n awgrymu, ogwydd sy'n arafu cerbydau beth bynnag. Mae troad i'r chwith bron yn syth i mewn i Baynton! Mae'r Rise yn parhau rownd i'r dde!"

Does dim cyfle i gyflymu gan fod y Rise yn dod i ben mewn ffordd bengaead!"

"Y prif reswm dros wrthwynebu'r cyfyngiad cyflymder arfaethedig yn Llantrisant Rise a Baynton Close yw oherwydd 'dw i ddim am weld y tirwedd yn llawn arwyddion diangen"

"Byddem yn gwrthwynebu, ac nid ydym yn cefnogi, cynnwys unrhyw fesurau arafu traffig yn yr ardal oherwydd rydym o'r farn y byddai hyn yn cyfrannu at dagfeydd cynyddol yn ystod adegau codi a gollwng ysgolion, ac mae beirniadaeth ar gynlluniau o'r fath yn nodi eu bod yn creu mwy o lygredd ceir."

Mae Cyngor Caerdydd o blaid sicrhau cyflymder cerbydau is mewn ardaloedd preswyl. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol Cymru i annog mwy o bobl i ddewis cerdded a beicio yn hytrach na gyrru. Mae cyfyngiadau cyflymder 20 m.y.a. yn lleihau'r perygl i ddefnyddwyr y ffordd sy'n agored i niwed ac yn ei gwneud yn haws i

ddefnyddio dulliau teithio iachach a mwy cynaliadwy. Gall cymdogaethau â chyflymder traffig is hefyd gael budd o amgylchedd cymdeithasol gwell, yn ogystal â chael y cyfle i groesi'r ffordd yn haws a sicrhau amodau diogelach i bawb.

Yn dilyn yr ardaloedd cyfyngiad cyflymder 20mya arwyddion yn unig yn Cathays, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i osod mwy o gyfyngiadau 20 mya mewn strydoedd preswyl eraill yn y ddinas. Mae nifer o strydoedd preswyl yng Nghaerdydd lle bydd y mesurau hyn yn cael eu cynnig yn y dyfodol, mae'r rhain hefyd yn cynnwys ardaloedd ger ysgolion.

Nod y cynllun hwn yw gwella poblogrwydd yr ardal drwy leihau'r defnydd o geir ar gyfer teithiau lleol, gan ei gwneud hi'n haws i groesi ffordd gan wella mynediad at gyfleusterau lleol, yn benodol i blant a'r henoed. Bydd y ffordd sydd wedi'u hadnabod yn rhan o'r cynnig wedi'u cyfyngu i 20mya a byddai'r Gorchymyn Rheoli Traffig angenrheidiol yn cefnogi hyn ac yn cael ei gefnogi gan arwyddion cyfyngiadau cyflymder priodol ac ailadroddwyr. Y nod cychwynol yw creu'r parth 20 mya heb ddefnyddio nodweddion arafu traffig ffisegol; rydym yn bwriadu defnyddio arwyddion ffyrdd (a marciau ffordd o bosibl) yn unig. Byddwn yn monitro'r cynllun ac yn gobeithio y bydd y cyflymderau'n briodol.

O ran y cyfyngiad cyflymder 20 mya arfaethedig ar gyfer Llantrisant Rise a Baynton Close ac yn dilyn y pryderon a godwyd gan breswylwyr cynhaliwyd cyfarfod ag Aelodau Ward Lleol. Cytunwyd oherwydd nad oes mynediad uniongyrchol i gerddwyr i'r ysgol o'r ffyrdd hyn cytunwyd na fyddai'r cyfyngiad cyflymder 20mya arfaethedig ar gyfer y ddwy ffordd yma yn cael ei roi ar waith fel rhan o'r cynnig hwn.

Fodd bynnag, bydd y ddwy ffordd yma yn parhau ar y rhestr ar gyfer rhaglen y dyfodol fel rhan o'r Adolygiad Strategol 20mya pe bai cyllid ar gael yn y dyfodol.

Dylid ehangu'r Dim Aros O Gwbl arfaethedig yn Llantrisant Rise o 10 metr i 20 metr

"Mae eisoes llawer o ddrwgdeimlad tuag at y perchnogion hynny sy'n peri risg i eiddo a bywydau drwy barcio'n rhy agos at y gyffordd. Byddai 10 metr o linellau melyn yn rhoi 'caniatâd' i yrwyr i barcio'n agosach na mae rhai yn gwneud nawr – mewn lle peryglus ofnadwy. Felly, hoffwn ofyn eich bod yn gosod llinellau 'dim aros' sy'n ymestyn 20 metr i mewn i Lantrisant Rise o'r gyffordd â Llantrisant Road."

Arfer y Cyngor yw gosod cyfyngiadau parcio ger cyffyrdd yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr, sy'n nodi na ddylai gyrwyr barcio o fewn 10 metr o gyffordd. Pan fydd cyfyngiadau parcio'n cael eu cyflwyno ger cyffyrdd, cynhelir asesiad o'r ardal i adnabod a oes unrhyw lif traffig cynyddol yn yr ardal oherwydd cyfleusterau cyfagos. Gan fod Llantrisant Rise yn ffordd bengaead preswyl bychan, nid oes unrhyw broblemau ynghylch llif traffig na galw mawr am barcio yn yr ardal ac felly y cynnig yw cyflwyno 10 metr o linellau melyn dwbl fyddai'n nodi "Dim Aros O Gwbl" ger y gyffordd.

Cyflwynwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â pharcio ar balmentydd yn yr ardal, niwed i droedffyrdd a gorfodi ar barcio ar balmentydd.

“Mae’n hanfodol nad yw ceir sy’n cludo plant i’r ysgol ac yn eu casglu oddi yno yn cael parcio ar balmentydd, gan ei fod yn rhywbeth sy’n digwydd yn aml yma, ac mae llawer o breswylwyr yr ardal wedi adrodd am hyn. Mae gweithredoedd y bobl hyn sy’n parcio ar balmentydd yn dinistrio’r palmentydd ac wyneb y ffordd ac yn rhwystro cerbydau eraill rhag mynd heibio. Dylid cosbi gyrwyr sy’n gwneud hynny, gan ei fod yn anghyfreithlon.”

Mae gyrru ar y droedffordd a rhwystro'r Briffordd yn droseddau sy'n groes i ddeddfwriaeth genedlaethol ac mae'r Heddlu'n ymdrin â'r rhain. Dylid adrodd am ddigwyddiadau penodol yn uniongyrchol iddyn nhw ar 101, y rhif ffôn nad yw'n frys.

Gwnaethom ystyried cyflwyno bolardiau drwy gydol yr ardal i atal cerbydau rhag gallu parcio ar y droedffordd. Roedd y cynllun arfaethedig blaenorol (*gweler Atodiad A*) yn cynnwys cyflwyno cyfyngiad parcio yn ystod y dydd ledled yr ardal. Cafodd y cynnig hwn lawer iawn o wrthwynebiadau. Mae'n debygol y byddai cynllun yn cynnwys cyflwyno bolardiau i atal parcio yn ei gyfanrwydd yn derbyn yr un gwrthwynebiadau.

Sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r cynllun Dim Aros O Gwbl arfaethedig

"Pam bod cynllun llinellau melyn dwbl 24 awr y diwrnod 365 diwrnod y flwyddyn wedi'i gynnig pan fo'r broblem o ran yr ysgol ond yn berthnasol yn ystod y tymor, o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8am a 4:30pm, gan fod y preswylwyr yn parcio'n gall ar y stryd?"

“Parcio rhwystrol sy’n atal bysus rhag gallu cael mynediad at yr ysgol – hoffwn ofyn pam bod disgwyl i linellau ar ddwy ochr Whitehall Road fod o gymorth gyda hyn, gan fod y bysus, yn fy nhyb i, ond yn teithio ar Greenwood Road a Highfields ac o flaen Gillian Road, ac nid Whitehall Road. Yn ogystal, ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfleusterau aros ger unrhyw gyffordd o Lantrisant Road nac ychwaith o flaen yr ysgol, felly oni fyddai hyn yn ddigonol os yw bysus yn teithio yn y cyfeiriad hwn?”

“Beth yw hyd y llinellau dwbl”

“Mae'r cynnig i osod llinellau melyn dwbl ger cyffyrdd Gillian Road a Whitehall Road; Whitehall Road a Greenwood Road a Highfields a Llantrisant Road yn peri pryder mawr i ni.”

Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi 'ni ddylech adael eich cerbyd neu drelar mewn lle peryglus, nac ychwaith mewn lle sy'n rhwystro'r ffordd mewn modd diangen'. Mae hefyd yn nodi 'Peidiwch â stopio na pharcio gyferbyn neu o fewn 10 metr o gyffordd'. Mae angen y cyfyngiadau hyn er mwyn gwella diogelwch i gerddwyr sy'n croesi'r cyffyrdd, i amddiffyn gweledd gyrwyr ac i hwyluso ymarferion cerbydol. Er bod cerbydau wedi parcio'n agos at y cyffyrdd hyn yn flaenorol, gan fod y cynnig yn ymwneud â materion diogelwch dylid osgoi parcio yma bob tro.

Byddai gweithrediad arfaethedig y cynllun yn gwaredu ychydig o gerbydau wedi parcio sydd wedi'u hadnabod yn rhai sy'n achosi problemau diogelwch a rhwystro yn eu lleoliadau presennol.

Cydnabyddir y byddai preswylwyr yn amlwg yn awyddus i allu parcio mor agos at eu cartrefi ag sy'n bosibl, ond mae'n rhaid i ddiogelwch ar y ffyrdd fod yn hanfodol ac ni ddylid cyfaddawdu hyn er budd cyfleustra wrth barcio.

Ar ôl i'r broses Ymgynghori ar y Project Trafnidiaeth ffurfiol ddod i ben a phenderfyniad yn cael ei gytuno ar sut dylid bwrw ymlaen â'r cynllun hwn, byddwn yn rhoi cyfarwyddyd i'r tîm Gorchymyn Rheoli Traffig i ddechrau ar broses Gorchymyn Traffig cyfreithiol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cyfyngiadau hyn ar y ffordd. Yn rhan o'r broses Gorchymyn Rheoli Traffig, bydd hysbysiadau safle'n cael eu rhoi ar y safle i roi gwybod i'r cyhoedd am y cynigion. Bydd yr hysbysiadau hyn yn rhestru union ddimensiynau unrhyw Orchmynion Rheoli Traffig ar gyfer yr ardal.

Dyma'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

"Rwy'n cefnogi'r cynnig i gyflwyno ardaloedd "Dim aros" ger cyffordd Llantrisant Rise gyda Llantrisant Road. Yn aml mae ceir yn parcio, neu'n aros, yn yr ardal hon ac mae'n achosi perygl go iawn i gerbydau eraill sy'n ceisio gadael Llantrisant Rise neu'n ceisio mynd ar y briffordd (Llantrisant Road). Yn aml mae'n rhaid i mi ddefnyddio ochr anghywir y ffordd ar gyfer y 30m olaf o Lantrisant Rise wrth adael, gan fod ceir wedi parcio ar yr ochr chwith."

"Rwy'n cefnogi'r cyfyngiadau arfaethedig (gan gynnwys cyfyngiadau cyflymder) ar gyfer Greenwood Road, Gillian Road a Highfields."

"Yn breswlydd yn Highfields, Llandaf, hoffwn ddiolch i chi am anfon llythyrau ynghylch y ddogfen ymgynghori. Rwyf wedi darllen a bod â diddordeb yn eich cynigion ac yn cytuno ar y rhain ar y sail eu bod nhw'n cael eu cefnogi gan Orfodi ac Addysgu gyrwyr yn briodol."

"Fel preswlydd a rhiant plentyn sy'n mynychu Ysgol Pencae, hoffwn fynegi fy nghefnogaeth gref tuag at y rhan fwyaf o'r agweddau ar y cynllun arfaethedig hwn, yn benodol y llinellau melyn dwbl ger cyffyrdd a'r llinell felen sengl gyferbyn â mynediad yr ysgol.

Os mai dim ond cyflwyno cyfyngiad cyflymder yw'r bwriad (fel y nodwyd yn yr hysbysiad) byddwn yn gefnogol iawn - er bod y ffyrdd wedi'u gosod mewn ffordd sy'n osgoi ceir rhag gyrru'n gyflymach na 20 mya, felly mae'r cyfyngiad yn ymddangos ychydig yn ormodol."

"Rydym yn cytuno ag argymhellion y Cyngor ynghylch rheoli traffig yn ardal Ysgol Pencae."

Dyma ychydig o sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, heb ddatgan a ydynt yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig:

"Er mwyn arddangos ymrwymiad go iawn i wella cysylltedd rhwng cysylltiadau rhwydweithiau beicio a cherdded presennol gyda phrif lwybrau ledled y ddinas ac annog mwy o bobl i gerdded a beicio fel dewis cyntaf o ran dull teithio, a fyddai modd ymestyn y cynigion i gynnwys darpariaeth rampiau ar gyfer beiciau ar Highfields Steps?"

Gan fod y cynllun arfaethedig yn gynllun Gorchymyn Rheoli Traffig cost isel, ni fyddai adeiladu "Rampiau Olwynion" yn cael ei gynnwys yn rhan o'r cynnig hwn. Gan fod hyn yn ymwneud â Theithio Llesol, anfonwyd y mater hwn ymlaen at Arweinydd yr Is-adran "Gweledigaeth, Polisi a Strategaeth Trafnidiaeth" am ymateb.

"Sylwn nad oes cynnig i atal bysus rhag cael mynediad at yr ardal."

"Mae bysus yn defnyddio'r ffordd hon yn lle troi, yn enwedig y rheiny o Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf, yn hytrach na gyrru'r pellter byr (i gyfeiriad Radur) i droi rownd."

"Byddai'n well cytuno gyda'r ysgol y dylai bysus ar gyfer disgyblion Ysgol Pencae ollwng plant ar Llantrisant Road yn y safleoedd bysus presennol, fel bod modd iddynt gerdded gyda chwmni y 100m i'r ysgol. Byddai hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr i'r plant allu ymarfer corff, y mae'r Cyngor yn awyddus i'w hybu"


Dylid nodi nad yw'r cynnig hwn wedi'i ddrfftio at ddibenion cynorthwyo bysus yn teithio tuag at Ysgol Pencae yn unig. Amcan y cynllun yw gwella diogelwch ar y ffyrdd yn gyffredinol yn ardal Ysgol Pencae a'r strydoedd cyfagos. Mae cyflwyno cyfyngiadau parcio ger cyffyrdd yn gyson â dull Cyngor Caerdydd o ran gwella diogelwch ar y ffyrdd cyffredinol i gerddwyr a cherbydau ger cyffyrdd lle bo cyfiawnhad i wneud hynny.

Mewn perthynas â'r materion bysus o Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf yn troi rownd ar Gilian Road neu Greenwood Road yn lle gyrru ymhellach i fyny'r ffordd, mae'r mater hwn wedi'i gyfeirio at y Tîm Trafnidiaeth Ysgolion er mwyn derbyn ymateb.

Mae Tîm Strategaeth Cyngor Caerdydd yn datblygu "Strategaeth Bws Cerdded" ar hyn o bryd, a fydd yn gosod Polisi ffurfiol ar sut gall ysgolion gyflwyno Bysus Cerdded i'w hysgol nhw. Byddai'r wybodaeth honno ar gael i Ysgol Pencae pe byddent yn dymuno mabwysiadu'r arfer hwn.

Atodiad A

Cynllun Gorchymyn Traffig a Gynigiwyd o'r Blaen



 N	Eglurhad <u>Gorchmynion sydd mewn grym</u> Dim Aros ar unrhyw Adeg Dim Stopio Dydd Llun i ddydd Gwener 0800 i 1630	LOCATION PLAN : Ysgol Pencae area, Llandaff			
	<u>Gorchmynion a gynigr</u> Dim Aros ar unrhyw Adeg Dim Aros Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 i 16:30	 	Scale 1:1000	Dwg No. CM/PT/NRG/HM/C1898	
 CARDIFF CAERDYDD	TRAFFIC MANAGEMENT County Hall Atlantic Wharf Cardiff CF10 4UW		Drawn HM	Checked 	Date 24/10/11